

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 10fed Fehefin 2019

Presennol- Gwawr Jones Cadeirydd, Neil Pringle, Dyfed Jones. Siân Godbert, Nick Corney, Marion Betteney, Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriad – Gareth Wynne.
Datgan diddordeb – Dim datganiad o ddiddordeb

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 13eg Fai 2019.

[1] Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd

Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes y cyfarfod nesaf.

Materion yn codi

(1.1) Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clerc at y canlynol a dderbyniwyd gan SCHG Jonathan Thomas :

[a] 7 achos perthnasol i'r briffordd.

[b] 4 achos o ladrata o siop

[c] 1 achos o ymddwyn yn wrth gymdeithasol

[1.2] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair.

Dywedodd y clerc ei fod wedi cysylltu gyda pherchennog y tir sydd ochr bella i'r afon gyferbyn a'r maes parcio a'i bod wedi cytuno i archwiliad topograffaid o'r lleoliad. Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir I drefnu.

[1.3] Rheolaeth Cae Llan

Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf.

[1.4] Colofn Golau Ffordd yr Orsaf

Nodwyd fod Edward Jones APCE yn trefnu i gwrdd gyda'r trydanwr i geisio penderfynu a fyddai'n bosib cael cyflenwad trydan o leoliad cyfagos ar gyfer y golofn lle mae'r diffyg.

[1.5] Siop Ultimate Outdoors

Y clerc i gysylltu gyda Chyngor BS Conwy ynglŷn â chyfrifoldeb am gynhaliath y llwybr cerdded ar gyfer y siop.

[1.6] Goleuadau Nadolig

Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl am ddyddiad gan y cwmni ar gyfer ymweliad ganddynt.

[1.7] Cais i logi'r Llogi'r Neuadd ar gyfer Ffair Greffttau

Nodwyd nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan Mr Gerry Barton ynglŷn â chais ganddo i logi'r neuadd

Y brif Agenda

[1.8] Ffilmio yn y Rhaeadr Ewynnol

Croesawyd Mr Tom Davey i'r cyfarfod a chafwyd amlinelliad o'r trefniadau ar gyfer ffilmio yn y rhaeadr. Dywedodd Mr Davey fod y Cyngor i dderbyn gwerth diwrnod a hanner o arian a fyddai'n gymharol i gyfnod cymharol ym mis Gorffennaf 2018.

[1.9] Materion Cynllunio

[a] Estyniad deulawr ar y blaen. Sŵn y Gog, Betws-y-Coed.

[b] Dymchwel y canopi presennol a chodi gasibo yn ei le a.y.b. Siop Goffi Alpine, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod

[c] Defnydd arfaethedig o hostel ar gyfer gwerthu bwyd poeth i'w gludo allan. Y Vagabond, Ty Vesey, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd anfon at ACPE fod y Cyngor Cymuned yn pryderu y bydd traffig yn cynyddu ac o ganlyniad yn creu trafferthion parcio os i'r cynnig gael ei gymeradwyo.

[2] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Mai 2019

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mai 2019.

[c] Penderfynwyd cymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer cyfnod 01/04/18 – 31/03/19

[d] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol - Nodwyd nad oedd unrhyw fater wedi dod i sylw.

[e] Y Ffurflen Flynyddol – Penderfynwyd cymeradwyo'r ffurflen ar gyfer ei dychwelyd I BDO yr Archwiliwr Allanol.

[2.1] Tai Fforddiadwy

Nodwyd y wybodaeth gan Bryn Davies, Grŵp Cynefin ynglyn a'r lleoliad sydd dan sylw ar gyfer datblygiad. Deallwyd fod materion ynglyn a mynediad i'r safle yn creu oedi.

[2.2] Gwaharddiad Parcio Ffordd Craiglan

Cyfeiriodd y cler at y cynigion ar gyfer gwahardd parcio yn y lleoliad uchod gan Gyngor BS Conwy. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gwneud ymholiad fel a ganlyn :

[1] Ydi'r Cyngor Sir wedi cysylltu gyda'r trigolion lleol a pherchennog y garej ynglyn a'r cynigion

[2] Gan nodi fod cryn dyfiant i'r coed yn gôr lifo i'r ffordd, oes gair wedi bod gyda'r tir feddiannwr i dorri'r coed yn ôl.

[3] Barn y Cyngor Cymuned ydi bod moduron sydd yn parcio ar fin y ffordd yn cynorthwyo tuag at arafu traffig yn y lleoliad.

[b] Ffordd Coed Cynhelir. Gan nodi trafferthion yn y gorffennol gan y gwasanaethau brys i ymateb i dan ar y mynydd trwy fod moduron wedi parcio ar y ffordd, penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir gynnwys y ffordd yn y cynllun adolygu traffig.

[2.3] Bagiau Gwastraff Cwn

Cyfeiriodd y clerc at nodyn gan Ms Hazel Barclay yn ceisio caniatâd y Cyngor I osod peiriant darparu bagiau gwastraff cwn yn Cae Llan a Phont y Mwynwyr. Penderfynwyd cytuno ar gyfer Cae Llan ond ddim ym Mhont y Mwynwyr, gan fod bagiau yn cael ei clymu i ganghennau coed a.y.b. . Cytunodd Janet Charlton I anfon y neges ymlaen.

[2.4] Datblygu Cae Llan

Nodwyd bod y mater yn parhau

[2.5] Cyfraniad

Penderfynwyd cyfrannu £250.00 I Ysgol Betws-y-Coed tuag at weithgareddau ysgolion yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst.

[2.6] Mynediad I'r Anabl / Rhaeadr Ewynnol

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Ms Jean Guppy yn gwneud ymholiad a oedd gostyngiad i bris mynediad i bobl anabl. Y clerc i anfon ateb, gan nad oes gan y Cyngor bolisi anabled, ni fedrai'r Cyngor gwaetha'r modd, gynnig gostyngiad.

[2.7] Guto Bebb AS

Nodwyd llythyr gan Guto Bebb AS yn ceisio sylwadau'r Cyngor at gyflymder moduron ar ffordd yr A5 yng nghyffiniau'r Rhaeadr Ewynnol. Y clerc i ateb fod y Cyngor yn pryderu'n arw ynglyn a diogelwch ar y ffordd yn y lleoliad yma, lle mae pobl oedrannus yn croesi'r ffordd o faes parcio'r gwesty i ymweld â'r rhaeadr.

[2.8] Siop Sglodion

Y clerc i gysylltu gyda'r perchennog a gofyn iddo symud y gwastraff yng nghefn y siop.

[2.9] Gwesty Pont-y-Pair

Deallwyd fod modur yn parcio ar fin ffordd yr A5 gyferbyn a'r gwesty. Y clerc i dynnu sylw SCHG Jonathan Thomas i'r mater.

[3] Nodwyd y wybodaeth ganlynol;

[a] Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol Drafft CCA 8: Llety Ymwelwyr

[b] Arolwg o Drefniadau Etholiadol Bwrdeistref Sirol Conwy

Cadeirydd _____